



## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r asesiad rheoleiddiol ar y cyd o Reolaeth ar Ddiogelwch a Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU (UK ABWR) Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd (Hitachi-GE), a gynhaliwyd fel rhan o Gam 2 Asesiad Dyluniad Generig (GDA) y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae'r broses GDA yn galw am asesiad gam wrth gam o gyflwyniad y Parti Gwneud Cais ar ddiogelwch, gyda'r asesiadau'n mynd yn gynyddol fanylach fel yr â'r prosiect yn ei flaen. Trosolwg yw Cam 2 GDA, yn unol â threfn reoleiddiol Prydain Fawr, o ba mor dderbyniol yw sylfeini'r dyluniad, yn cynnwys adolygiad o brif hawliadau diogelwch, diogeledd niwclear a diogelwch amgylcheddol gyda'r nod o ganfod unrhyw ddiffygion diogelwch, diogeledd neu amgylcheddol sylfaenol allai rwystru cyhoeddi Cadarnhad Derbyn y Dyluniad (DAC) gan yr ONR neu Ddatganiad o Dderbyniad Dyluniad (SoDA) gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd ein gwaith felly'n canolbwyntio ar asesu pa mor ddigonol ac effeithiol yw trefniadau system reoli'r Parti Gwneud Cais a barnu eu gallu i fodloni disgwyliadau'r rheoleiddwyr wrth eu cymharu â safonau ansawdd rhyngwladol a dogfennau canllaw GDA y rheoleiddwyr.

Y meini prawf a ddefnyddiwyd gennym i farnu pa mor ddigonol yw trefniadau system reoli'r Parti Gwneud Cais ar gyfer GDA oedd:

- Egwyddorion Asesu Diogelwch yr ONR (SAP) ar Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Diogelwch;
- Canllaw Arolygiaeth Technegol yr ONR ar Systemau Rheoli;
- Safon Diogelwch IAEA ar y System Reoli ar gyfer Cyfleusterau a Gweithgareddau;
- Safonau Prydeinig a Rhyngwladol ar Systemau Rheoli Ansawdd (Gofyniadau a Chanllawiau ar gyfer Cynlluniau Ansawdd);
- Adweithyddion Niwclear newydd: Canllaw Asesiad Dyluniad Generig i Bartion Gwneud Cais (2013);
- Trefniadau Rhyngwyneb Asesiad Dyluniad (rhwng y Rheoleiddwyr a'r Parti Gwneud Cais)

Mae fy ngwaith GDA Cam 2 wedi cynnwys ymgysylltu'n barhaus â'r Parti Gwneud Cais ar ffurf gweithdai cyfnewid technegol a chyfarfodydd i fesur cynnydd. Hefyd, mae ein dealltwriaeth o dechnoleg ABWR a Threfniadau System Reoli'r Parti Gwneud Cais, yn enwedig y rheini ar gyfer rheoli cyflwyniadau GDA, ac, felly, ein hasesiad, wedi elwa'n sylweddol o ymweld â Hitachi Works, Rinkai Works a'r unedau ABWR ar Safle Ynni Niwclear Kashiwazaki-Kariwa.

Mae ein hasesiad wedi ei seilio ar ddogfennaeth y system reoli a gyflwynwyd gan y Parti Gwneud Cais ac arolwg, yn yr Hitachi Works, oedd yn asesu gweithrediad trefniadau'r system reoli. Roedd dogfennaeth system reoli'r Parti Gwneud Cais yn cynnwys:

- Cynllun Prosiect GDA
- Cynllun Rheoli Ansawdd (ar gyfer Prosiect GDA ABWR y DU)
- Tabl Cydymffurfriad ar gyfer Disgwyliadau Rheoleiddiol
- Gweithdrefnau penodol GDA

Yn ystod ein hasesiad GDA Cam 2 rydym wedi canfod y cryfderau canlynol:

- Mae gan y Parti Gwneud Cais system rheoli ansawdd sydd wedi ei drwyddedu i ISO 9001:2008 ac wedi datblygu trefniadau system reoli benodol ar gyfer y prosiect GDA fydd yn rheoli'r datblygiad, adolygiad, adolygiad annibynnol a chymeradwyaeth o'r cyflwyniadau diogelwch, diogeledd ac

amgylcheddol i gyflawni disgwyliadau'r rheoleiddwyr ar gyfer GDA. Roedd y trefniadau hyn o safon dda yn gyffredinol.

- Daeth ein harolwg gweithrediad yn yr Hitachi Works yn Japan i'r casgliad bod y Parti Gwneud Cais wedi gweithredu trefniadau system reoli addas ar gyfer y prosiect GDA, yn seiliedig ar y sampl a gymrwyd, ddylai sicrhau bod disgwyliadau'r Rheoleiddwyr ar gyfer GDA yn cael eu bodloni, a bydd y ddogfennaeth diogelwch, diogeledd ac amgylcheddol a gynhyrchir o fewn GDA yn cael ei adolygu'n ddigonol a'i wirio'n annibynnol.
- Nododd ein harolwg gweithrediad ddeg maes i wella arnynt; roedd y rhain yn cynnwys gwelliannau o ran prosesau a newidiadau bach mewn dogfennaeth. Mae'r Parti Gwneud Cais wedi cymryd camau i gywiro hyn a darparu tystiolaeth sydd wedi'n galluogi ni i wirio bod y camau wedi eu cwblhau.

Yn ein hasesiad o'r trefniadau rheoli ar gyfer GDA ABWR y DU rydym wedi nodi'r meysydd canlynol fel rhai i ail edrych arnynt:

- Roedd un maes ar gyfer gwelliant a nodwyd yn ystod yr arolwg yn ymwneud â chofnodi trafodaethau ac ystyriaethau ar Ddiogelwch Niwclear a'r Technegau Ar Gael Gorau (BAT) yn ystod y cyfarfodydd adolygu dyluniad. Cymerodd y Parti Gwneud Cais gamau cywiro ar unwaith drwy gyflwyno "Crynodeb o'r Adolygiad Dyluniad" ac, mewn ymateb i gwestiwn rheoleiddiol, mae wedi anfon enghreifftiau o'r adolygiadau hynny i ddangos effeithiolrwydd y broses hon. Yng Ngham 3 bydd yr ONR yn parhau mewn trafodaeth gyda'r Parti Gwneud Cais i sicrhau y bydd yr adolygiadau'n cofnodi'n ddigonol y drafodaeth ar Ddiogelwch Niwclear a BAT.
- Mae'r Parti Gwneud Cais wedi cyflwyno matrices i ddangos sut y bydd disgwyliadau'r Rheoleiddwyr am Gamau 3 a 4 yn cael eu bodloni. Bydd angen monitro'r rhain drwy gydol Cam 3.

Ynglŷn â'r rhyngweithiadau gyda'u Harbenigwyr Deunydd Pwnc (SME) ym maes MSQA, cawsom fod personél y Parti Gwneud Cais yn bobl broffesiynol rheoli ansawdd oedd yn meddu ar yr wybodaeth a'r profiad perthnasol. Roedd y cyfarfodydd a'r rhyngweithiadau gyda'r SMEs yn agored a thryloyw. Ymdriniwyd â'n sylwadau a'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella arnynt mewn modd effeithiol ac yn gyflym.

Yn gyffredinol, nid yw'r ONR ac Arolygwyr Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweld unrhyw reswm, ar sail Rheolaeth ar Ddiogelwch a Sicrwydd Ansawdd, pam na ddylai ABWR y DU symud ymlaen i Gam 3 y broses GDA.